

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher Chwefror 3^{ydd}, 2021am 6.45 yh.

Preseanol

Cynghorwyr D. Hopkins P. H. Roberts Mrs K.D.L Davies
 R. A. Davies

Ymddiheuriadau

Cynghorydd I. Rh. Llewelyn

839.

Adolygiad o'r Polisiâu a'r Dogfennau

(i) Y Gofrestr Asedau – roedd y Clerc wedi adolygu'r gofrestr ac roedd y newidiadau a ddangosir isod wedi'u gwneud:-

a) Erbyn hyn mae'r parciau yn Saron a Chapel Hendre wedi'u prydlasu yn ffurfiol oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

b) Ychwanegwyd argraffydd newydd at ddefnydd y swyddog gweinyddol, ac roedd yr hen un wedi'i ddi-ddymu o'r gofrestr.

c) Nodwyd bod offer gwerth £20,230, a gwaith gosod wyneb gwerth £8,760 yn y parc newydd ym Mhenybanc wedi'u gosod ar y gofrestr. Nid oedd costau paratoi'r safle a gosod yr offer yn ei le wedi'u cynnwys.

(ii) Cafodd yr holl ddogfennau a pholisïau eraill, ag eithrio Cofnod 840 isod, eu harchwilio ac fe **argymhellwyd** eu bod yn aros yn ddigfnewid, fel y cytunwyd ym mis Chwefror 2021.

840.

Rheoliadau ariannol - Tendo – Gwerth y Contract

Argymhellwyd y dylid cynyddu'r gwerth contract ar gyfer cyflenwi cynhyrchion a deunyddiau o £20,000 i £25,000 cyn bod angen gwahodd tendr, gan yr ystyrir hyn i fod y trothwy priodol cyn bod gofyn i Gyngorau ddilyn rheolau arennig.

841.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau

Roedd y Clerc wedi cynnal adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr holl Bwyllgorau, ac **argymhellwyd** eu bod yn cael eu mabwysiadu a'u cadarnhau yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

842.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.00 yh.